# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Chwefror 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Sioned E Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned**<br>**Esyllt Rhys Jones, Rheolwr Rhaglenni Adfywio** |
| **Rhif Cyswllt:** | **32547 / 32513** |
| **Pwnc:** | **Cronfa Ffyniant Bro – Cynllun Llewyrch o'r Llechi** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

a. Derbyn llythyr cynnig, am arian Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain, i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi ar y cyd a phartneriaid o fewn y Dyffrynnoedd Llechi ;
b. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno ar y trefniadau cytundebol a gweithredu a'r pecyn ariannol cyflawn gyda partneriaid.

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd tri cais sylweddol gan yr Adran Economi a Chymuned ac Adran Amgylchedd i Gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth Prydain. Ni fu cais Bywiogi Bangor na chais Coridor Gwyrdd Ardudwy yn llwyddiannus, ond bu cais Llewyrch o'r Llechi yn llwyddiannus. Gofynnir am yr hawl i dderbyn y cynnig gan Lywodraeth Prydain ag i ymgymryd a threfniadau i weithredu'r cynllun.

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Ar 23 o Fawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fanylion am ail rownd Cronfa Ffyniant Bro. Mae'n un o becyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio ganddynt yn sgil gadael Yr Undeb Ewropeaidd a mynediad at y Cronfeydd Strwythurol oedd ar gael fel Aelod Wladwriaethol.

1.2. Nod y gronfa yw buddsoddi mewn cynlluniau isadeiledd lleol, gweledol ac o ansawdd yn y meysydd trafnidiaeth, adfywio a chanol trefi ynghyd a buddsoddiadau diwylliannol. Ceir pwyslais arbennig at ardaloedd ôl-ddiwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol.

1.3. Ni fu'r cais 'Glannau' a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2021 yn llwyddiannus. Un prif newid erbyn 2022 oedd fod Gwynedd wedi codi o gategori blaenoriaeth 3 i gategori blaenoriaeth 1. Roedd hyn i'w groesawu ac yn debygol o gryfhau ceisiadau Gwynedd.

1.4. Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet 19 Gorffennaf 2022 i gefnogi'r bwriad o dargedu Cronfa Ffyniant Bro ar gyfer cynlluniau Bywiogi Bangor, Llewyrch o'r Llechi, a Coridor Gwyrdd Ardudwy. Cyflwynwyd y 3 cais Awst 2022.

## 2. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1. Bu i Lywodraeth Prydain 19 Ionawr 2023 gyhoeddi'r cynlluniau llwyddiannus ar gyfer ail rownd Cronfa Ffyniant Bro. O'r 3 cais, a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd, dim ond Llewyrch o'r Llechi a fu'n llwyddiannus. Derbyniwyd cadarnhad o fuddsoddiad o £18.8m I'w wario cyn diwedd Mawrth 2025. Cytunwyd yng nghyfarfod Cabinet 19 Gorffennaf 2022 y byddem yn cynnig manylion llawn pe byddai cynlluniau yn llwyddiannus.

2.2. Mae cynllun Llewyrch o'r Llechi yn becyn gwerth oddeutu £27M o gynlluniau ar draws dyffrynnoedd llechi Gwynedd sydd yn ymateb i'r thema ***buddsoddi mewn diwylliant***. Mae'n adnabod cyfleon i uchafu ar y buddion i'r gymuned leol a'r economi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ôl yn 2021. Mae'n gynllun sydd yn cynnig cyfleoedd a datblygiadau sydd yn cyfrannu tuag at adfywio y cymunedau hyn.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **<u>Hwb Dinorwig</u>** – pecyn o gynlluniau i uwchraddio darpariaeth yr Amgueddfa Lechi, Parc Padarn a chysylltiadau efo'r chwareli yn ardal Llanberis;
- **<u>Hwb Ogwen</u>** – pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeilad yng nghanol tref Bethesda i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella'r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;
- **<u>Hwb Ffestiniog</u>** - pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeiladau yng nghanol tref Blaenau Ffestiniog i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella'r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;
- **<u>Gwelliannau Amgylcheddol Canol Trefi a Chadwraeth Strwythurau Hanesyddol –</u>** cynlluniau megis celf cyhoeddus, uwchraddio dodrefn stryd, arwyddo a dehongli, yn ogystal a gwaith cadwraeth i warchod strwythurau hanesyddol yn y dair ardal.

Mae Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn cynnig gwybodaeth fanylach am y cynlluniau llawn.

2.3. Mae cynllun Llewyrch o'r Llechi yn un rhan o weledigaeth ehangach y dynodiad Safle Treftadaeth Byd, sef:

*Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.*

Mae'n raglen waith eang, o gydweithio gyda phartneriaid, busnesau, y trydydd sector a thrigolion, i sicrhau y budd mwyaf i holl gymunedau yr ardal yn sgil y dynodiad trwy nifer o weithgareddau ac ymyraethau.

2.4. Mae arian y cynllun Llewyrch o’r Llechi yn ymateb yn rhannol i'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu adnabod yn y Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd, mae gwaith yn parhau i wireddu blaenoriaethau eraill trwy gyllidebau megis cyllid Trawsnewid Trefi, Cronfa Treftadaeth y Loteri a Cadw, a thrwy gynlluniau ehangach yn cynnwys y sector breifat, cyhoeddus a gwirfoddol trwy ein partneriaid.

2.5. Mae’r penderfyniad a geisir drwy’r adroddiad hwn yn galluogi swyddogion i symud ymlaen i dderbyn y cynnig ac i sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect manwl ar gyfer y cynlluniau unigol uchod.

Materion Cydraddoldeb

2.6. Bydd angen i bob cynllun sydd yn rhan o gynllun Llewyrch o’r Llechi sicrhau eu bod yn cydymffurfio a materion cydraddoldeb. Bydd asesiad llawn yn cael ei wneud ar gyfer pob cynllun wrth iddynt gael eu datblygu.

2.7. Pan fo partner trydydd parti yn gweithredu’r cynllun bydd yr angen i gydymffurfio a materion cydraddoldeb a’r angen am asesiad llawn yn rhan o’r cytundeb cyfreithiol efo’r partner.

Materion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

2.8. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adnabod saith nod llesiant. Mae’n gosod uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’r adroddiad hwn a’r gwaith yn gysylltiedig â chynllun Llewyrch o’r Llechi yn ymateb i’r Nodau Llesiant hyn:

- Cymru Lewyrchus - Yng Ngwynedd mae’r economi yn fregus a’r busnesau yn ein trefi ac o fewn y dyffrynnoedd llechi, yn benodol, yn cyfrannu yn sylweddol tuag at economi'r sir ynghyd a chynnig trawstoriad o gyfleoedd cyflogaeth. Mae’r cynllun yn cyfrannu yn bositif tuag at economi lewyrchus;
- Cymru Iachach - mae thema iechyd a lles yn thema amlwg drwy’r cynllun yn enwedig y ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd pwrpasol i wella iechyd a lles trigolion Gwynedd;
- Cymru sy’n fwy cyfartal – mae'r cynllun Llewyrch o’r Llechi yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a darpariaethau i drawstoriad eang o’r boblogaeth, beth bynnag fo cefndir nag amgylchiadau'r unigolion;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus - mae cymunedau bywiog a ffyniannus yn cynnig amrediad o wasanaethau a gwasanaethau mewn amgylchedd braf a diogel. Mae hyn yn allweddol i ddyfodol cymunedau ac yn greiddiol i'r cynllun hwn;
- Cymru a Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu - mae cynllun Llewyrch o’r Llechi cyfrannu tuag at warchod ein diwylliant drwy ei phobl, atyniadau, a gwasanaethau ynghyd a’r gwaith o hyrwyddo’r Gymraeg. Mae dynodiad Safle Treftadaeth Byd y Dyffrynnoedd Llechi a’r cynllun hwn yn rhoi statws a chydnabyddiaeth i bwysigrwydd diwylliannol Gwynedd;
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel byd eang - mae cynlluniau teithiau llesol a hamdden sydd yn rhan amlwg o’r cynllun yn cefnogi'r agenda lleihau carbon.
- Cymru Gydnerth - mae cymunedau Gwynedd yn chwarae rôl allweddol wrth sefydlu strwythurau a chyfleoedd sydd yn gallu wynebu ac ymateb i heriau economaidd a chymunedol i’r dyfodol. Mae’r cynllun Llewyrch o’r Llechi yn adlewyrchu partneriaeth gryf sydd yn cynnwys y sector gyhoeddus, fusnes a’r trydydd sector.

3. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

3.1. Bydd y gwaith o osod y trefniadau llywodraethu ac yna o weithredu y cynllun Llewyrch o'r Llechi. Bydd angen i'r cynllun llawn fod wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025.

**4. BARN SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Mae'r cynnig yma yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn yr ardaloedd dan sylw. Bydd ymuno yn y gytundeb grant gyda Llywodraeth y DU yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i weinyddu y grantiau sydd ar gael a hynny yn ddarostyngedig i'r amodau ariannu. Mae'n bwysig er cefnogi y gwaith yn effeithiol fod trefniadau cytundebau ariannu mewn lle o'r cychwyn fydd yn caniatáu proses effeithlon i gyflawni yr amcanion.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn amlinellu'n glir y cyfleon sydd ar gael i rai ardaloedd o'r sir fel canlyniad i lwyddiant y cais yma ac rwyf yn fodlon fod yr amcangyfrifon ariannol yn realistig. Byddaf yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned a gyda'r Swyddog Monitro i ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y cynllun Llewyrch o'r Llechi fel bod modd gwarchod buddiannau'r Cyngor tra'n uchafu buddiannau'r cynllun.